

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 29 Mawrth 2022
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswilt: Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Teitl yr Eitem: Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2021-22

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

3. CEFNDIR

3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod.

3.2. Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

4. Barn y Swyddogion Statudol:

i) Y Swyddog Monitro:

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodedb priodol o'r gwaith Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

ii) Y Pennaeth Cyllid:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

